**CYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN**
**COFNODION CYFARFOD MAI 2023**
2 Mai 2023 18.30 yn Y Ganolfan, Llanfrothen

## 1. Presennol

Elin Jones, Glyn Griffiths, June Jones, Bethan Gritten, Siân Cwper

**Clerc:** Huw Rowlands

**Cadeirio:** Nia Povey

## 2. Ymddiheuriadau

Cenwyn ap Tomos

## 3. Datgan Diddordeb/Buddiant Personol

Datganodd y Cynghorydd Glyn Griffiths fuddiant yn eitem 5.10, Grid Cenedlaethol, gan ei fod yn aelod o Fenter Llanfrothen sydd yn ystyried gwneud cais i'r Grid Cenedlaethol am grant ar gyfer paneli solar.

## 4. Cadarnhau Cofnodion Misol 6 Mawrth 2023

**Cynnig:** Nia Povey

**Eilio:** Elin Jones

## 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

### 5.1 Cais Cynllunio Carreg Frech

Parheir i ddisgwyl i glywed ymhellach gan Barc Cenedlaethol Eryri ar y mater yma.

### 5.2 Y Ganolfan

Trefnodd y Cynghorydd Nia Povey waredu'r trugareddau yn yr ystafell i lawr grisiau.

Mae'n anhebygol y bydd y Clwb Yoga am ddefnyddio'r Ganolfan bellach.

Mae drws Y Ganolfan yn medru bod yn anodd ei agor, ac fe gytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths i edrych ar y mater.

### 5.3 Goryrru Llanfrothen

Cytunwyd i ofyn am fesuriadau cyflymder traffig newydd gan Gyngor Gwynedd, ac felly gofyn am osod stripiau goryrru ar y ffordd allan o'r pentref tuag at Benrhyndeudraeth, ac o dafarn Y Ring at Kyffin Terrace.

### 5.4 Maes Chwarae Llanfrothen

Cafwyd 22 ateb i'r holiadur yn holi barn am ddarpariaeth maes chwarae yn Llanfrothen a ddosbarthwyd gan y Cynghorydd Bethan Gritten.

Roedd yr ymatebion yn cadarnhau fod pawb yn meddwl ei bod hi'n bwysig cael llefydd gwyrdd a naturiol i chwarae, a dros hanner yr ymatebwyr hefyd o'r farn ei bod hi'n bwysig cael offer chwarae hefyd.

Mater arall a amlygwyd oedd nad oedd hi'n amlwg ble roedd canol y pentref, ac felly hyn yn ei gwneud hi'n anodd penderfynu ble fyddai'r lleoliad mwyaf addas.

Ychydig iawn o ddefnydd sydd o'r offer chwarae yng nghae'r ysgol, y rhan fwyaf ddim yn gwybod am ei fodolaeth, a chytundeb cyffredinol fod angen ei wella.

Casgliad arall oedd nad oedd neb yn defnyddio cyfleusterau chwarae Carreg Frech, a bod yr offer yno yn anaddas gan mai ar gyfer plant ifanc iawn yr oeddynt.  Roedd barn gyffredinol mae'r flaenoriaeth yng Ngharreg Frech fyddai cadw cymaint o le gwyrdd yno ag sydd yn bosibl, ond roedd teimlad y byddai cael offer chwarae pren yno er mwyn tanio dychymyg plant yn syniad da hefyd.

Roedd llawer yn cefnogi cael lle chwarae yn nhafarn Y Ring, ac yn meddwl mai'r fan honno fyddai'r lleoliad mwyaf addas.

Bydd angen trafodaeth bellach ar y mater.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Bethan Gritten am ei holl waith ar y mater.

### 5.5 Mynwent Tan Lan

Yn dilyn asesiad risg, daethpwyd i'r casgliad fod 7 carreg fedd angen sylw.

Bu'r Cynghorydd Nia Povey yn tacluso drain ac ati yn y fynwent ac mae hi'n fodlon cyfarfod efo Dylan Edwards er mwyn dangos iddo ba waith sydd angen ei wneud er mwyn tacluso'r llwybr.

Cytunwyd fod angen adnewyddu'r canllaw yn y fynwent.

### 5.6 Clymog Siapan, Pont Haearn, Afon Caseg

Mae'r Cynghorydd Nia Povey wedi siarad efo'r perchennog tir y mae'r clymog siapan yn deillio ohono ar hyd ochr yr afon.  Mae wedi cytuno i edrych i mewn i'r mater.

Gan fod y clymog siapan yn tyfu ger llwybr cyhoeddus, gall felly fod yn rhywbeth y byddai Cyngor Gwynedd yn fodlon ei daclo.  Cytunodd y Cynghorydd Nia Povey i gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn trafod y

mater ymhellach, ond bydd yn rhaid aros tan fis Tachwedd cyn cymryd unrhyw fesurau i daclo'r clymog siapan.

### 5.7 13 Garreg Frech

Adroddodd y Cynghorydd June Jones fod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystyried cyflwyno rhybudd adran 215 ar yr eiddo, sydd yn gosod dyletswydd ar y perchnogion i'w dacluso.

Does dim diweddariad gan Gyngor Gwynedd o ran cyflwyno gorchymyn arwystl ar yr eiddo am ddyledion treth cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo Mabon ap Gwynfor AS a gofyn iddo gysylltu efo Cyngor Gwynedd er mwyn gofyn am ddiweddariad ar y mater yma.

### 5.8 Cysgodfan Fws Llanfrothen

Cytunwyd y dylai'r Cynghorydd Bethan Gritten ofyn a fyddai pensaer y mae'n ei hadnabod yn fodlon gwneud braslun cychwynnol o'r gysgodfan am ddim.

Siaradodd y cynghorwyr Siân Cwper a Nia Povey efo Balfours, asiant stad Brondanw, ac wedi cael mesuriadau ganddynt. Edrychwyd ar strwythurau tebyg sy'n bodoli ym Mhortmeirion. Mae strwythurau rhychiog yn rhad i'w codi ond cynnal a chadw yn ddrud.

Cytunodd y Cyndghorydd June Jones i holi Parc Cenedlaethol Eryri am gostau gwneud cais cynllunio.

Mae'n bosibl y bydd stad Brondanw yn fodlon gwneud cyfraniad ariannol tuag at y gysgodfan.

Bydd y Clerc yn gwirio y bydd polisi yswiriant y cyngor cymuned yn darparu am atebolrwydd cyhoeddus am ddefnydd unrhyw gysgodfan a osodir yn y dyfodol.

### 5.9 Tafarn y Ring

Ffurfiwyd grŵp cymunedol, Dyfodol y Ring yn ddiweddar, oherwydd pryder fod y dafarn yn parhau ar gau. Hoffai'r grŵp sefydlu tafarn gymunedol, gam eu bod o'r farn nad yw cwmni Robinsons wedi llwyddo i redeg y dafarn yn llwyddiannus ers rhai blynyddoedd.

Deallir fod Mabon ap Gwynfor AS wedi cael ymateb gan gwmni Robinsons ond bod Liz Saville Roberts AS yn parhau i ddisgwyl ymateb.

Mae Stad Brondanw hefyd am gysylltu efo Robinsons am eu bod o'r farn fod Robinson's yn torri amodau'r les, drwy ganiatáu i'r eiddo fod yn wag.

### 5.10 Grid Cenedlaethol

Nid yw cynghorau cymuned yn gymwys ar gyfer cais am grant gam y Grid Cenedlaethol, ond gall grwpiau lleol eraill wneud cais, e.e. Y Dref Werdd, Caffi Croesor, Menter Llanfrothen ac yn y blaen.

Gall Swyddog Cefnogi Cymunedau Cyngor Gwynedd roi cymorth efo hyn.

**5.11 Llwybr Llanfrothen - Penrhyndeudraeth**

Trafodwyd y cynlluniau a'r astudiaeth ddichonoldeb a wnaethpwyd yn 2016, oedd yn dangos gwahanol opsiynau am lwybr rhwng Llanfrothen a Phenrhyndeudraeth. Y brif broblem yw'r gost.

Trafodwyd llwybr fyddai'n golygu osgoi'r darn mwyaf peryglus o'r ffordd rhwng Llanfrothen a Penrhyndeudraeth, sef o du cefn pwerdy Scottish Power i lawr am waelod y lôn

Cytunodd y Cynghorydd glyn Griffiths i dynnu lluniau o'r tro, ac fe gytunwyd hefyd y byddai'n beth da cael mesuriadau cyflymder ar y morfa ei hun er mwyn gweld beth yw cyflymder traffig a pha mor saff ys cerdded ar hyd y ffordd.

Byddai bwrw ymlaen efo'r mater yma yn golygu cydweithredu efo'r gymuned yn gyffredinol.

**6. Materion Ariannol**

**6.1** Cyflog Clerc Mawrth 2023 £239.72

TWE £59.80

**6.2** Cyflog Clerc Ebrill 2023 £239.72

TWE £59.80

**6.3** Costau cyfrif HSBC Mawrth 2023 - £8.00

**6.4** Adnewyddu Polisi Yswiriant BHIB - £992.67

**6.5** Snowdonia Fire and Protection gwasanaeth diffoddyddion - £54.00

**6.6** Derbyn tâl claddu Pritchard & Griffiths £1250.00

**6.7** Balans yn y prif gyfrif 25 Ebrill 2023 £15,197.16

Balans yn y cyfrif cadw 25 Ebrill 2023 £21.236.41

**7. Gohebiaeth**

- Holiadur Perfformiad Cyngor Gwynedd

Cytunwyd fod y Clerc yn cwblhau'r holiadur ar ran y cyngor cymuned

**8. Cynllunio**

Dim

## 9. Materion Eraill

### 9.1 Adroddiad Blynyddol

Cytunwyd i gymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol, ond fod angen ychwanegu'r bwriad i osod cysgodfan fws ger tafarn Y Ring ynddo.

**Cynnig:** Elin Jones

**Eilio:** Glyn Griffiths

### 9.2 Adroddiad Adolygu Drafft Cynllun Datblygu Lleol Eryri

Nodwyd fod Parc Cenedlaethol Eryri yn dechrau’r broses o adolygu eu Cynllun Datblygu Lleol

### 9.3 Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Cytunwyd i gefnogi cais Cyngor Cymuned Pistyll, sef fod angen mwy o ddarpariaeth cyrsiau hyfforddi ar gyfer cynghorau cymuned yn yr iaith Gymraeg**.**

### 10.3 Y Ffordd i Mewn i Benrhyndeudraeth

Mae yna nifer o dyllau yn y ffordd ger croesffordd y trên bach ar y ffordd i mewn i Benrhyndeudraeth, a hyn yn beryglus, yn enwedig i feics. Cytunodd y Cynghorydd Glyn Griffiths i gael gair efo’r Cynghorydd Sir lleol ar hyn.

Yn ogystal mae nifer o geir yn parcio ar y ffordd i mewn o Lanfrothen i Benrhyndeudraeth, sy’n ei gwneud hi’n anodd i gerbydau mawr fedru mynd heibio.  Credir fod y broblem yma yn deillio oherwydd bod nifer o Airbnb's yno.  Gofynnwyd i’r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn nodi’r broblem.

| **Dyddiad y cyfarfod nesaf – 27 Mehefin 2023** |
| --- |